Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru): Crynodeb o welliannau Cyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i'r *Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)* ("y Bil") yn ystod trafodion Cyfnod 2.

Diben y Bil yw mewn achosion lle y gwnaed taliad digolledu yng nghyswllt dioddefwr clefyd sy'n ymwneud ag asbestos, p'un a gafwyd cyfaddefiad o atebolrwydd neu beidio, bydd gan Lywodraeth Cymru yr hawl i adennill cost y driniaeth feddygol a ddarparwyd gan y GIG. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn creu unrhyw hawl gyfreithiol newydd i daliad digolledu. Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn **Crynodeb o Fil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Cefndir

Bil Aelod Cynulliad yw'r Bil, a gyflwynwyd gan Mick Antoniw AC ("yr Aelod sy'n gyfrifol") a oedd yn llwyddiannus mewn balot deddfwriaethol ar **21 Mawrth 2012**, ac a gafodd amser gan y Cynulliad i fwrw ymlaen â'i Fil ar **16 Mai 2012.**

Cyflwynwyd y Bil ar **3 Rhagfyr 2012** ac yna cafodd ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** ("y Pwyllgor") ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis **Mawrth 2013**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad** ar ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Bil yn yr un mis.

Cymeradwyodd y Cynulliad y Bil yng Nghyfnod 1 yn dilyn dadl ar ei egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar **19 Mawrth 2012**.

Cynhaliwyd ystyriaethau Cyfnod 2 ar 24 Ebrill 2013. Cyflwynwyd cyfanswm o 14 o welliannau, a chafodd dau ohonynt eu tynnu'n ôl. Cyflwynwyd dau welliant gan yr Aelod sy'n gyfrifol, chwech gan Lywodraeth Cymru a chwech gan y Ceidwadwyr Cymreig.

## Gwelliannau a basiwyd yng Nghyfnod 2

### Gwasanaethau a eithrir

Cynigiodd Llywodraeth Cymru welliant 7, sy'n caniatáu iddi ymestyn cwmpas y Bil i ofal sylfaenol drwy reoliad.

Cynigiodd Llywodraeth Cymru welliant 3 sy'n ei gwneud yn ofynnol y bydd unrhyw reoliadau newydd a wneir o ganlyniad i welliant 7 yn cael eu cyflwyno drwy'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

### Apelau a hawlildiadau

Mae gwelliant 4, a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ragnodi'r gweithdrefnau ar gyfer hawlildiadau.

Cynigiwyd gwelliant 2 gan yr Aelod sy'n gyfrifol. Mae'n darparu bod y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol i gael ei defnyddio at ddefnydd cyntaf pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn cysylltiad ag apelau a hawlildiadau.

### Defnyddio arian a adenillir

Cynigiwyd gwelliant 1 gan yr Aelod sy'n gyfrifol. Mae'n mewnosod cyfeiriad at "ymchwil" i'r darpariaethau sy'n ymdrin â sut y dylid gwario arian a adenillir.

### Cywiriadau drafftio

Mae gwelliannau 6 a 8 yn welliannau'r Llywodraeth sy'n cywiro fersiwn Gymraeg drafft y Bil.

Mae gwelliant 6 yn mewnosod y gair 'eraill' mewn cysylltiad â gwasanaethau er mwyn cyfateb â geiriad fersiwn Saesneg y Bil.

Mae gwelliant 8 yn newid y diwrnod y mae adran 1, adran 20, adran 21 a'r pwerau a roddwyd gan y Bil hwn i wneud rheoliadau yn dod i rym a oedd yn anghywir yn y fersiwn Gymraeg.

### Adroddiad blynyddol

Cynigiwyd gwelliant 5 gan Lywodraeth Cymru. Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar sut y caiff arian a adenillir o dan y Bil ei wario.

## Y camau nesaf

Paratowyd **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil** gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 3 ar 25 Ebrill 2013 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2). Gall yr Aelodau gyflwyno rhagor o welliannau i'r Swyddfa Ddeddfwriaeth erbyn 6pm ar 28 Mai 2013, (**SwyddfaDdeddfwriaeth@cymru.gov.uk**). Cynhelir trafodion Cyfnod 3 yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 5 Mehefin 2013.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r Clerc Deddfwriaethol, Steve George

(**steve.george@cymru.gov.uk**)